# Cyngor Cymuned Tudweiliog Rheolau Sefydlog

1. Bydd y Cyngor yn cynnal un ar ddeg o gyfarfodydd misol gan eithro Mis Awst. Fe'u cynhelir yn arferol ar yr ail nos Lun o bob mis am 7.30 yr hwyr yn Festri Capel Tudweiliog/Festri Capel Dinas/Festri Capel Garnfadryn am yn ail, neu unrhyw leoliad neu dechneg addas.
2. Dylid rhoi o leiaf tri diwrnod clir o rybudd cyn y cyfarfod i'r Cynghorwyr, ni fydd y diwrnod y cyflynwyd y rhybudd, diwrnod y cyfarfod, dydd Sul, un o ddyddiau gwyliau'r Nadolig, un o ddyddiau gwyliau'r Pasg neu ŵyl banc neu ddiwrnod a glustnodwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus yn cyfrif.
3. Bydd cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd oni bai fod eu presenoldeb yn groes i'r budd cyhoeddus oherwydd natur gyfrinachol y materion a drafodir neu am resymau arbennig eraill. Bydd y cyhoedd yn cael eu heithrio o ran o gyfarfod neu gyfarfod cyfan trwy benderfyniad fydd yn rhoi rhesymau dros eithrio'r cyhoedd. Ni dderbynir ymddygiad afreolus mewn cyfarfod.
4. Fe all y Cyngor, fel bo'r achos, benderfynu cau allan y cyhoedd a'r wasg oherwydd natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod.
5. Bydd y Cadeirydd, os yw'n bresennol, yn llywyddu mewn cyfarfod. Os yw'r Cadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd yr Is-Gadeirydd, os yn bresennol, yn llywyddu. Os yw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd Cynghorydd a ddewiswyd gan y Cynghorwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod yn llywyddu yn y cyfarfod.
6. Yn amodol ar reol sefydlog bydd pob mater mewn cyfarfod yn cael eu penderfynu trwy fwyafrif y Cynghorwyr sy'n bresennol ac yn pleidleisio arno.
7. Os bydd nifer y pleidleisiau'n gyfartal bydd y sawl sy'n llywyddu yn y Cynfarfod yn rhoi pleidlais fwrw yn ogystal ag unrhyw bleidlais arall sydd ganddo/ganddi.
8. Os bydd dau neu ragor o aeloadu am siarad bydd y Cadeirydd yn penderfynu ym mha drefn y cant siarad.
9. Ni ddylid trafod busnes y Cyngor mewn cyfarfod oni fydd o leiaf traean o holl aelodau'r Cyngor yn bresennol (felly o ran cyfarfodydd Cyngor Tudweiliog bydd cworwm o bedwar o Gynghorwyr o leiaf).
10. Os nad oes cworwm mewn cyfarfod ni chaiff unrhyw faterion eu trafod a bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio. Bydd unrhyw faterion na thrafodwyd

mohonynt mewn cyfarfod a ohiriwyd yn cael eu trafod mewn cyfarfod i'r dyfodol.

11. Yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor sef mis Mai bydd rhaid:
    a/ Ethol Cadeirydd
    b/ Ethol Is-gadeirydd
    c/ Adnewyddu pwerau swyddogaeth y Clerc
12. Bydd unrhyw un sydd wedi ei ethol/hethol i swydd Cynghorydd Cymuned yn arwyddo Datganiad o Dderbyn Swydd ac yn cadw at y Cod Ymddygiad.
13. Dylai tendrau/dyfynbrisiau a dderbynnir gael eu hagor yn ystod y Cyfarfod gan y Clerc neu unrhyw un arall y mae'n ofynnol cyfeirio tendrau ato/ati yng ngwydd y Cyngor. Ni fydd rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn y tender isaf.
14. Gall y Cyngor, ar unrhyw adeg benodi unrhyw bwyllgorau eraill all fod eu hangen, bydd ei gylch gorchwyl a'i aelodau yn cael eu penderfynu gan y Cyngor.
15. Gall Cadeirydd y Cyngor gynnull cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor ar unrhyw adeg.
16. Ni fydd cynghorwyr a gweithwyr yn datgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol.
17. Gall cynghorwyr a chanddynt fudd niweidiol o ran unrhyw eitem o fusnes sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod (i) wneud sylwadau, (ii) ateb cwestiynau a (iii) rhoi tystiolaeth ynghylch y mater sy'n cael ei drafod ond rhaid iddo wedyn adael yr ystafell neu'r siambr.
18. Rhaid gwneud cywiriadau i'r cofnodion cyn iddynt gael eu harwyddo.
19. Bydd y Cyngor yn trafod y materion yn ei gyfarfodydd yn yr iaith Gymraeg.
20. Os bydd Cynghorydd yn methu 6 cyfarfod misol yn olynol yna bydd yn anghymwyso ei un o'r sydd Cynghorydd a bydd gofyn iddo/iddi adael ei sedd.
21. Bydd y Clerc yn rhoi copi o'r Rheolau Sefydlog i bob aelod o'r Cyngor pan gaiff Ddatganiad o Dderbyn Swydd ei arwyddo gan yr aelod.